






# Gwelliannau i Fynedfeydd Allanol Marchnad Abertawe

## Nodweddion Mynedfeydd Safonol Arfaethedig

Mae nodweddion allweddol megis totemau ar y stryd, arwyddion, lobïau mewnol ar eu newydd wedd a chaeadau addurnol yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r tri chynnig dylunio er mwyn gwella'r mynedfeydd allanol.

Mae'r canlynol yn syniadau cychwynnol a fydd yn parhau i gael eu mireinio wrth i'r prosiect gael ei lunio ac wrth i'r dyluniad a ffefrir gael ei ddewis.

# Arwyddion totem ar y stryd




Gosodir 1 neu 2 arwydd totem annibynnol ar y stryd ger pob mynedfa allanol, gan gynnwys gwybodaeth ddwyieithog i siopwyr fel amserau agor.

Bydd y totemau yn ddwyieithog ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i siopwyr megis oriau agor a chysylltiadau.

Yn amodol ar gost, mae opsiwn ar gyfer goleuo'r adeileddau'n fewnol.

Bydd cynllun lliw'r arwyddion totem yn ategu'r dyluniad dethol.

Bydd saeth gyfeiriadol yn cael ei chynnwys ar bob totem i helpu i gyfeirio cwsmeriaid at fynedfa'r farchnad.

Caiff yr arwyddion totem eu gosod ar y stryd mewn ffordd sy'n sensitif i'r strydlun ehangach ac anghenion mynediad y rheini sy'n mynd i ganol y ddinas.

# Arwyddion ychwanegol

**Mapiau o'r Farchnad**
Ffefrir cynnig digidol ar gyfer dod o hyd i leoedd, ond os nad yw hyn yn bosib, caiff mapiau presennol y farchnad eu diweddaru ac, o bosib, eu hadleoli.

**Arwyddion yn y lobi**
Bydd yr arwyddion sydd yn y lobïau ar hyn o bryd yn cael eu had-drefnu er mwyn tacluso'r ardal.

**Gwybodaeth i siopwyr**
Bydd arwydd dwyieithog ar y wal yn rhoi gwybodaeth am gyfleusterau, e.e. toiledau, man newid.

**Graffigwaith Ffenestri**
Caiff graffigwaith presennol y ffenestri ei newid yn unol â'r dyluniad newydd ac efallai y bydd yn hyrwyddo statws arobryn y farchnad.



# Lobi fewnol

Caiff y mannau y tu mewn i bob mynedfa eu diweddaru i greu lobi lachar, lân, hygyrch sy'n hawdd ei chynnal.



Darluniad o Stryd Rhydychen

**Nenfydau**
Nenfwd crog parhaus newydd i guddio gwasanaethau ac i greu golwg lân, daclus a modern, gan ddefnyddio lliw ategol sy'n helpu i greu synergedd rhwng y mannau allanol a mewnol.

**Goleuadau**
Goleuadau crog mewnol mewn fformat llinol sy'n denu sylw at y farchnad. Bydd y fanyleb LED yn economaidd ac yn gwneud y mannau mewnol yn weladwy o'r stryd.

# Cyffiniau a deunydd gwydr y mynedfeydd



**Waliau**
Gosodir haenen newydd o gladin ar y waliau ynghyd â phaneli cadarn a gweithredol i roi gorffeniad parhaus i'r hyn sydd ar golofnau'r mynedfeydd sydd ar y stryd.

**Lloriau**
Gorffeniad cyson a chaled i wella golwg y lloriau a helpu i'w glanhau.

**Graffigwaith a gwybodaeth**
Saethau ceibr trawiadol i gyfarwyddo cwsmeriaid i'r farchnad, ochr yn ochr â gwybodaeth ddefnyddiol i siopwyr.

**Deunydd Gwydr**
Caiff y ffenestri a'r drysau gwydr presennol eu glanhau'n drylwyr a chaiff graffigwaith newydd ei ychwanegu at y ffenestri.

# Goleuadau

Mae goleuadau amlygu yn rhan allweddol o'r cynllun.

Ystyrir goleuo'r totemau y bwriedir eu gosod ar y stryd gyferbyn â phob mynedfa ochr yn ochr â goleuadau ôl y prif adeiledd canopi.



Bwriedir i'r goleuadau uwchben y bondo ac effeithiau goleuadau hirgul i mewn i'r lobi greu diddordeb yn y farchnad a denu sylw ati.


Ystyrir defnyddio goleuadau y gellir eu rhaglennu i newid lliw o frig y mast sy'n cysylltu â'r prif adeiledd metel, gydag opsiynau ar gyfer rhaff, llen ac arddulliau eraill.



Bydd economeg a chynaliadwyedd pob system oleuo'n cael eu hystyried, a ffefrir fformatau LED.

# Mastiau uchel




Bydd y prif fast presennol uwchben pob mynedfa'n parhau'n nodwedd fel rhan o'r adeileddau canopi metel presennol.

Caiff y mast presennol ei drin a'i baentio i ategu'r dyluniad ehangach.

Gellid defnyddio'r mast ar gyfer goleuadau, baneri tymhorol a/neu faneri finyl o bosib.

# Caeadau addurnol

I wella diogelwch y farchnad a chyd-fynd â dyluniadau arfaethedig y mynedfeydd, mae caeadau addurnol yn cael eu datblygu hefyd.

Gellir defnyddio'r caeadau hyn fel mesur diogelwch ychwanegol yn ystod oriau cau.



Mae dyluniad finyl creadigol wedi cael ei ddatblygu i gynnwys graffigwaith sy'n cynrychioli'r cynnyrch a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y farchnad.

Bydd union ddyluniad a chynllun lliw'r caeadau'n ategu'r dyluniad ehangach.

Bydd y caeadau'n cael eu hamlygu gan oleuadau o'r prif fondo er mwyn goleuo'r mynedfeydd.

**Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, caiff y syniadau hyn eu datblygu ymhellach.**

**Yn y cyfamser, ewch i 'Cyfle i ddweud eich dweud' ar y wefan a dewiswch eich hoff ddyluniad ar gyfer y canopi.**

#1 Y Ciwboid




#2 Y Stensil




#3 Y Baril

